

### HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YMGEISWYR CYNGOR SIR DDINBYCH

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn “reolydd data”. Mae hyn yn golygu ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Rydym yn anfon copi o'r hysbysiad preifatrwydd hwn atoch oherwydd eich bod yn gwneud cais am swydd gyda ni. Mae'n tynnu'ch sylw at sut a pham y defnyddir eich data personol, sef at ddibenion yr ymarfer recriwtio, ac am ba hyd y bydd yn cael ei gadw gennym fel arfer. Mae'n darparu gwybodaeth benodol sy'n rhaid i ni ei darparu i chi o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE 2016/679) (GDPR).

### EGWYDDORION DIOGELU DATA

Byddwn yn cydymffurfio â chyfraith ac egwyddorion diogelu data, sy'n golygu y bydd eich data:

- Yn cael ei ddefnyddio mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw.
- Yn cael ei gasglu yn unig at ddibenion dilys a esboniwn yn glir i chi ac ni fydd eich data yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
- Yn berthnasol i'r dibenion yr ydym wedi sôn amdanynt wrthyach ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny yn unig.
- Yn gywir ac yn gyfredol.
- Yn cael ei gadw cyhyd ag sy'n angenrheidiol at y dibenion yr ydym wedi sôn wrthyach amdanynt.
- Yn cael ei gadw'n ddiogel.

## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YMGEISWYR CYNGOR SIR DDINBYCH**

### **Y MATH O WYBODAETH A GADWN AMDANOCH**

Yng nghyswllt eich cais am swydd gyda ni, byddwn yn casglu, storio a defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth bersonol amdanoch:

- Unrhyw wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni fel rhan o'ch cais.
- Y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni ar eich ffurflen gais, gan gynnwys enw, teitl, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost personol, dyddiad geni, rhyw, hanes cyflogaeth, cymwysterau, gwybodaeth cyfle cyfartal, rhif yswiriant gwladol, manylion eich trwydded yrru, aelodaeth o gyrff proffesiynol,
- Unrhyw wybodaeth a roddwch i ni yn ystod cyfweiliad.
- Unrhyw wybodaeth a dderbyniwn o ganlyniad i unrhyw asesiadau neu brofion.

Efallai y byddwn hefyd yn casglu, storio a defnyddio'r mathau canlynol o wybodaeth bersonol mwy sensitif:

- Gwybodaeth am eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol a safbwyntiau gwleidyddol.
- Gwybodaeth am eich iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflwr meddygol, cofnodion iechyd a salwch.
- Gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throsteddau.

### **SUT MAE'CH GWYBODAETH BERSONOL YN CAEL EI CHASGLU?**

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr o'r ffynonellau canlynol:

- Chi, yr ymgeisydd.

## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YMGEISWYR CYNGOR SIR DDINBYCH**

- Asiantaethau recriwtio
- Darparwyr gwiriadau cefndirol penodol megis asiantaethau safonau gofal neu reolyddion addysgu er enghraifft.
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn perthynas ag euogfarnau troseddol ar gyfer rhai swyddi yn unig.
- Canolwyr a enwyd gennych.
- Data gan drydydd parffion os yw'n dod o ffynhonnell sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

### **SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO GWYBODAETH AMDANOCH**

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch i:

- Asesu'ch sgiliau, cymwysterau a'ch addasrwydd ar gyfer y rôl.
- Cynnal gwiriadau cefndirol a geirdaon, lle bo hynny'n berthnasol.
- Cyfathrebu â chi am y broses recriwtio.
- Cadw cofnodion yn ymwneud â'n prosesau recriwtio.
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol.

Mae'n fuddiant cyfreithlon i ni benderfynu a ddylem eich penodi i'r swydd gan y byddai o fudd i'n busnes benodi rhywun i'r swydd.

Mae angen i ni brosesu'ch gwybodaeth bersonol hefyd er mwyn penderfynu a ddylid cychwyn contract cyflogaeth gyda chi. Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen gais (a chanlyniadau unrhyw asesiad neu brawf os yw hynny'n ofynnol) byddwn yn prosesu'r wybodaeth honno wedyn i benderfynu a ydych yn ateb y gofynion sylfaenol i gael eich gosod ar restr fer ar gyfer y swydd. Os byddwch, byddwn yn penderfynu a yw'ch cais yn ddigon cryf i'ch gwahodd am gyfweiliad. Os byddwn yn penderfynu eich galw

## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YMGEISWYR CYNGOR SIR DDINBYCH**

am gyfweiliad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni yn y cyfweiliad i benderfynu a ddylem gynnig y swydd i chi. Os byddwn yn penderfynu cynnig y swydd i chi, byddwn wedyn yn gofyn am eiradaon; yn cynnal gwiriadau cofnodion troseddol neu wiriadau eraill os yw hynny'n ofynnol ar gyfer y swydd cyn cadarnhau'ch penodiad.

### **SUT YDYM YN DEFNYDDIO GWYBODAETH BERSONOL ARBENNIG O SENSITIF**

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol arbennig o sensitif yn y ffyrdd canlynol:

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich statws anabledd i ystyried a oes angen i ni ddarparu addasiadau priodol yn ystod y broses recriwtio, er enghraifft a oes angen gwneud unrhyw addasiadau.
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich hil neu'ch tarddiad cenedlaethol neu ethnig, credoau athronyddol neu foesol, neu'ch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol, er mwyn sicrhau ein bod yn monitro a chreu adroddiadau cyfle cyfartal ystyrlon.

### **GWYBODAETH AM EUOGFARNAU TROSEDDOL**

Mae gennym bolisiau a mesurau diogelu priodol y gofynnir i ni eu cynnal yn unol â'r gyfraith wrth brosesu data fel hyn.

### **GWNEUD PENDERFYNIADAU AWTOMATAIDD**

Ni fydd penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol arnoch yn cael eu gwneud

## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YMGEISWYR CYNGOR SIR DDINBYCH**

yn seiliedig ar brosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd yn unig.

### **RHANNU DATA**

#### **Pam fyddech chi'n rhannu fy ngwybodaeth bersonol â thrydydd partïon?**

Byddwn ond yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon er mwyn prosesu'ch cais. Mae gofyn i'n holl ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ac endidau eraill yn y grŵp ddefnyddio mesurau diogelwch priodol i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisiau. Nid ydym yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio'ch data personol at eu dibenion eu hunain. Rydym yn rhoi caniatâd iddynt brosesu'ch data personol at ddibenion penodol yn unol â'n cyfarwyddiadau yn unig.

### **DIOGELWCH DATA**

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli yn ddamweiniol, ei defnyddio neu ei darllen mewn modd diawdurdod, ei newid neu ei datgelu. Rydym hefyd yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i weithwyr, asiantwyr, contractwyr a thrydydd partïon sydd ei hangen at ddibenion busnes. Byddant ond yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'n cyfarwyddiadau ac mae ganddynt ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau mewn lle i ymdrin ag unrhyw achos o dorri rheolau diogelwch data ac, os yw'r gyfraith yn mynnu hynny, byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reolydd perthnasol os oes unrhyw amheuaeth bod rheolau'n cael eu torri.

## CADW DATA

### Am faint fyddwch chi'n defnyddio fy ngwybodaeth?

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am gyfnod o 6 mis ar ôl i ni eich hysbysu a ydym wedi penderfynu'ch penodi ar gyfer y swydd. Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am y cyfnod hwnnw fel y gallwn ddangos, os bydd hawliad cyfreithiol yn cael ei geisio, nad ydym wedi gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar seiliau gwaharddedig a'n bod wedi cynnal yr ymarfer recriwtio mewn modd teg a thryloyw. Ar ôl y cyfnod hwn, byddwn yn dinistrio'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â'n polisi cadw data neu unrhyw gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.

Os ydym yn dymuno cadw'ch gwybodaeth bersonol ar ffeil, ar y sail y gallai cyfle pellach godi yn y dyfodol ac y byddwn o bosibl am eich ystyried ar gyfer y cyfle hwnnw, byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân, gan geisio'ch caniatâd penodol i gadw'ch gwybodaeth bersonol am gyfnod penodol ar y sail honno.

## HAWLIAU MYNEDIAD, CYWIRO, DILEU A CHYFYNGU

### Eich hawliau mewn cysylltiad â gwybodaeth bersonol

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych hawl cyfreithiol i:

- **Wneud cais am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol (a elwir fel arfer yn "gais mynediad gwrthrych data"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol a gadwn amdanoch chi a gwirio ein bod wedi bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- **Gwneud cais am gywiro'r** wybodaeth bersonol a gadwn amdanoch. Mae hyn yn

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YMGEISWYR CYNGOR SIR DDINBYCH

eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir a gadwn amdanoch.

- **Gwneud cais am ddileu'ch** gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar wybodaeth bersonol os nad oes rheswm da i ni barhau i'w phrosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich gwybodaeth bersonol os ydych wedi ymarfer eich hawl i wrthwynebu'r ymarfer prosesu (gweler isod).
- **Gwrthwynebu i ni brosesu'ch** gwybodaeth bersonol os ydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu fuddion cyfreithlon trydydd parti) a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol yn gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu'r weithred brosesu ar y sail hon.
- **Gwneud cais am osod cyfyngiadau ar brosesu'ch** gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni beidio â phrosesu gwybodaeth bersonol amdanoch dros dro, er enghraifft os ydych am i ni ganfod a yw'n gywir neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Gwneud cais i drosglwyddo'ch** gwybodaeth bersonol i rywun arall.

Os hoffech adolygu, gwirio, cywiro neu wneud cais am ddileu'ch gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu'r weithred o brosesu'r data personol, neu wneud cais am drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i rywun arall, cysylltwch ag Adran AD y Cyngor yn ysgrifenedig.

### HAWL I DYNNU CANIATÂD YN ÔL

Pan wnaethoch gais am y swydd hon, cawsom eich caniatâd i brosesu'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymarfer recriwtio. Mae gennych hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar gyfer prosesu at y diben hwnnw ar unrhyw adeg. I dynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch ag adran AD y Cyngor. Unwaith y byddwn wedi derbyn hysbysiad eich bod wedi tynnu'n caniatâd yn ôl, byddwn yn rhoi'r gorau i

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YMGEISWYR CYNGOR SIR DDINBYCH

brosesu'ch cais a byddwn, yn amodol ar ein polisi dargadw, yn gwaredu eich data personol yn ddiogel.

### SWYDDOG DIOGELU DATA

Rydym wedi penodi swyddog diogelu data (SDD) i sicrhau y cydymffurfir â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu sut yr ydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth personol, cysylltwch â [dataprotection@denbighshire.gov.uk](mailto:dataprotection@denbighshire.gov.uk). Mae gennych hawl i gyflwyno cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data.

Rwyf i, \_\_\_\_\_ (enw'r ymgeisydd), yn cydnabod fy mod ar \_\_\_\_\_ (dyddiad), wedi derbyn copi o Hysbysiad Preifatrwydd Ymgeiswyr Cyngor Sir Ddinbych ac fy mod wedi'i ddarllen a'i ddeall.

Llofnod

.....

Enw

.....